



Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Strategaeth Ddrafft Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol

Yn cau 11 Mehefin 2024

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y datganiad canlynol yn nodi gweledigaeth gyffredinol sy'n gywir i Gymru?

“Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn cymunedau sy'n eu hannog, yn eu cefnogi ac yn eu grymuso i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol, a hynny heb stigma a gwahaniaethu. Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod gan bawb yr iechyd meddwl gorau posibl. Bydd system gymorth gysylltiedig ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector ac yn ehangach, lle gall pobl gael gafael ar y gwasanaeth cywir, ar yr adeg gywir, ac yn y lle cywir. Bydd gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn dosturiol ac yn rhoi'r ffocws ar adferiad, gyda phwyslais ar wella ansawdd, diogelwch a mynediad. Bydd gofal a chymorth yn cael eu darparu gan weithlu sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac sydd â'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion amrywiol pobl Cymru.”

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 1a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1?

Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cytuno mewn egwyddor â'r weledigaeth gyffredinol a'r newid tuag at atal yn hytrach na rheoli argyfwng mewn gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl, ond nid yw'n eglur sut y darperir yr adnoddau ar gyfer hyn ac ar ba bwynt y bydd cyllid yn cael ei symud o'r gwasanaethau argyfwng iechyd i'r elfen atal cymdeithasol ac yn y gymuned fel y nodir yn y weledigaeth

Cwestiwn 2

Yn y cyflwyniad, rydym wedi nodi deg egwyddor sy'n sail i'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd. Ydych chi'n cytuno mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno



- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 2a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 2?

Er ein bod yn cytuno â'r deg egwyddor a nodwyd yn y strategaeth credwn efallai y dylid cynnwys rhai ychwanegol neu eu hatgyfnerthu drwy ehangu'r disgrifiadau.

Efallai y dylid ystyried a ddylid ehangu canolbwyntio ar yr unigolyn i gynnwys profiad bywyd yn fwy penodol a bod gofalfwr di-dâl yn cael eu cynnwys, gan eu bod yn aml yn darparu cefnogaeth yn lle neu gyda'r gwasanaethau eraill ac yna'n ddioddefwyr trawma dirprwyol eu hunain.

Nid oes llawer o sôn am drin pobl yn deg pan nad oes ganddynt gapasiti neu fod eu capasiti'n gyfyngedig yn fyr dymor neu'n hirdymor yn sgil salwch cynyddol fel dementia. Mae'r sylw diweddar i broses Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn taro mwy o oleuni ar y sefyllfa.

Yn y rhestr o grwpiau rydym yn credu efallai bod tri grŵp ar goll, y cyntaf yn ddioddefwyr cam-drin domestig, yr ail yn gyflawnwyr cam-drin domestig, a'r trydydd yn unigolion sy'n mynd drwy'r menopos, maes lle na chafwyd digon o ymchwil ers blynyddoedd fel mater iechyd 'menywod' ond gyda mwy o ganolbwynt ar hynny yn awr.

Yn y strategaeth, mae gennym nifer o adrannau sy'n cael eu llywio gan bedwar datganiad o weledigaeth allweddol. Mae'r pedwar datganiad o weledigaeth hyn yn cynrychioli ein nodau cyffredinol. Hoffem wybod eich barn am bob un ohonynt. Gallwch ateb cwestiynau am gynifer o'r datganiadau ag sydd o ddiddordeb i chi.

Datganiad o Weledigaeth 1

Cwestiwn 3

Datganiad o weledigaeth 1 yw bod pobl yn meddu ar yr wybodaeth, yr hyder a'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Ydych chi'n cytuno bod yr adran hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cyflawni hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf



Cwestiwn 3a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 3?

Rydym yn cytuno gyda'r datganiad o weledigaeth sy'n ymddangos i symud oddi wrth wasanaethau iechyd meddwl sy'n seiliedig ar iechyd i ymagweddau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar elfennau cymdeithasol. Sut y ceir yr adnoddau ar gyfer y newid hwn gyda'r pwysau presennol a'r problemau o ran capasiti, rydym yn credu y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol a phartneriaid cymunedol i ddiwallu'r weledigaeth hon, gyda'r posibilrwydd o symud cyllid, adnoddau a chanolbwynt i'r gwasanaethau atal sydd y tu hwnt i leoliadau iechyd sylfaenol ac eilaidd.

Mae'n hollbwysig yma bod mwy o ganolbwynt ar negeseuon iechyd meddwl cadarnhaol gan fod negeseuon yn aml yn canolbwyntio ar y negyddol (sy'n ddealladwy). Mae hefyd yn hollbwysig er mwyn symud i ymagwedd a gwasanaeth cymdeithasol mae'n rhaid sicrhau bod mwy o ffocws ac adnoddau ar gael ar gyfer y gweithlu a'r gofalwyr di-dâl sydd mewn perygl o ddioddef trawma dirprwyol eu hunain.

Yn yr adran ar *Fabanod, plant a phobl ifanc*, nid oes sôn am ofalwyr ifanc a allai fod mewn perygl oherwydd y stigma o gael rhiant â phroblemau iechyd meddwl ac osgoi ei ddatgelu er mwyn osgoi bwlio sy'n un o'r risgiau a nodwyd yn strategaeth ddrafft atal hunan-niweidio a hunanladdiad. Gallai'r risg fod yn uwch os yw'r unigolyn gyda chyflwr iechyd meddwl yn frawd neu'n chwaer iddynt ac yn mynychu'r un ysgol, gan olygu nad yw'r un ohonynt yn cael seibiant a bod mwy o stigma a risg o fwlio.

Mae gwybodaeth anecdotaidd hefyd bod amddifadedd economaidd gymdeithasol yn cael effaith ond hefyd yr argyfwng tai. Os yw plentyn neu berson ifanc, neu geisiwr lloches ac ymfudwyr yn pryderu o ran lle maent yn cysgu ac a yw'n ddiogel yna mae'r gallu i ymgysylltu â gwasanaethau a chymorth yn ystyrlon yn gyfyngedig.

Mae atal a chymorth ar gyfer rhai dan 25 oed yn hollbwysig fel y nodwyd ar dudalen 20 y strategaeth ddrafft, ond mae'r gwasanaethau ieuencid dan bwysau gyda gwasanaethau cymunedol yn gorfod cau, gan arwain at fwy o unigedd ac arwahanrwydd sy'n cael effaith negyddol ar iechyd meddwl. Dyma un maes lle y gallai ac y dylai adnoddau gael eu symud o'r sector iechyd i lywodraeth leol i sicrhau bod digwyddiadau a gwasanaethau cymunedol yn gallu parhau neu eu datblygu er mwyn galluogi cydlyniant cymunedol a chynnig dewisiadau fforddiadwy er mwyn cysylltu gydag eraill a lleihau unigedd ac arwahanrwydd.

Cwestiwn 3b

Rydym wedi cynnwys nifer o gamau gweithredu lefel uchel ar gyfer Datganiad o Weledigaeth 1 yn y strategaeth. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno



- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 3c

Oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r camau gweithredu hyn?

Rydym yn cytuno â'r camau gweithredu ond fe fydd gennym ddiddordeb yn y manylion yn y cynllun cyflawni a'r costau ar gyfer darparu'r hyfforddiant sydd ei angen a sut y mae'r trydydd sector a'r gwasanaethau cymunedol eraill sydd eisoes dan bwysau i fod i ymdopi â'r cynnydd mewn galw pan fo nifer ohonynt yn cael trafferthion goroesi.

Nid gwybodaeth, dealltwriaeth, cyngor a chyfathrebu yn unig ydyw ond diwylliant. Gall gweithwyr proffesiynol ddysgu a gwella eu gwybodaeth i gynghori eraill ond os nad yw diwylliant yn y gweithle'n cyd-fynd â hyn yna gallai hyn gael effaith negyddol ar y gweithlu. Felly, efallai y byddai'n berthnasol cynnwys arweinyddiaeth dosturiol a gwell dealltwriaeth o drama dirprwyol ar gyfer staff sydd wedi bod yn y maes iechyd drwy lechyd Cyhoeddus Cymru ers o leiaf pum mlynedd ac yn awr yn cael ei gyflwyno i'r lleoliadau gofal cymdeithasol drwy Ofal Cymdeithasol Cymru.

Rydym hefyd yn rhagweld y bydd rhywfaint o effaith yn sgil newid ym mholisi'r heddlu gyda rhaglen Gofal Cywir, Person Cywir, lle bo gwybodaeth gynnar mewn ambell ardal yn Lloegr yn dangos bod pobl mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael eu hatgyfeirio at grwpiau cymunedol heb unrhyw brofiad o iechyd meddwl. Rydym yn awyddus i sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd yng Nghymru.

Ni fydd deall y penderfynyddion ehangach ac iechyd meddwl heb atal y penderfynyddion ehangach neu o leiaf eu lleihau a lleihau eu heffaith, yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar atal, nid yw unrhyw un o'r camau gweithredu lefel uchel yn ystyried mynd i'r afael â'r penderfynyddion ehangach yn uniongyrchol.

Rydym yn credu y dylid canolbwyntio mwy ar les meddyliol cadarnhaol, mae'n aml yn negyddol iawn ac os mai'r bwriad yw diwallu'r strategaeth yna ein safbwynt ni yw bod angen newid y sgwrs.



Datganiad o Weledigaeth 2

Cwestiwn 4

Datganiad o Weledigaeth 2 yw bod gweithredu'n digwydd ar draws y Llywodraeth i ddiogelu iechyd meddwl a llesiant meddyliol cadarn. Ydych chi'n cytuno bod yr adran hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cyflawni hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 4a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 4?

Dim sylwadau penodol ar y datganiad o weledigaeth.

Yn yr adran hon, rydym yn dweud beth fydd gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni amcanion Datganiad o Weledigaeth 2:

- **beth all polisi iechyd meddwl ei gyflawni (cwestiwn 4b)**
- **beth wnaiff Llywodraeth Cymru yn ehangach (cwestiwn 4c)**

Cwestiwn 4b

Oes unrhyw beth arall y gall polisi iechyd meddwl ei wneud i sicrhau bod gwaith ar draws y Llywodraeth yn gwella canlyniadau iechyd meddwl?

Gweithrediad Gofal Cywir, Person Cywir, sy'n rhaglen gan yr heddlu sydd â'r potensial i effeithio ar feysydd polisi datganoledig gan gynnwys gwasanaethau iechyd, y Gwasanaeth Ambiwlans, diogelwch cymunedol, tai, gofal cymdeithasol a diogelu.

Cwestiwn 4c

Mae llawer o waith yn digwydd ar draws y Llywodraeth a allai wella canlyniadau iechyd meddwl. Oes unrhyw waith ar goll y credwch y dylem ei gynnwys?

Dylid cynnwys SHEP (Bwyd a Hwyl) gan y gall bontio dros wyliau'r haf o safbwynt dysgwyr diamddiffyn. Mae gan Bwyd a Hwyl 5 canlyniad bwriedig, un ohonynt yw "Gwella Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol". Mae'r rhaglen yn darparu dull i gymunedau ysgolion i ymgysylltu â phlant a chynnal eu brwdfrydedd dros wyliau'r haf ynghyd â'u maethu'n feddyliol a chorfforol. Yn ogystal â darparu trefn a strwythur, mae'n rhoi cyfle i dimau lles ysgolion i gadw cysylltiad â'u disgyblion mwyaf diamddiffyn a'u teuluoedd dros y gwyliau.

Cynllun Cenedl Noddfa o dan "Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy".



Cwestiwn 4d

Rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu lefel uchel ar gyfer Datganiad o Weledigaeth 2 yn y strategaeth. Ydych chi'n cytuno â nhw?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 4e

Oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r camau gweithredu hyn?

Mae'n bosib bod gormod o bwyslais a ffocws ar asesiadau o effaith ar iechyd, lle y daeth ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar y mater yn eithaf diweddar ac mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi. Fel rhan o ymateb CLILC i'r ymgynghoriad rydym wedi tynnu sylw at yr heriau o ran adnoddau, gan gynnwys cyllid, ond hefyd sut y dylid osgoi'r materion a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r strategaeth ar gyfer Datganiad o Weledigaeth 2 yn canolbwyntio ar waith a rhaglenni presennol gan Lywodraeth Cymru heb fawr o fanylion o ran sut y byddant yn cysylltu ac yn uno i alluogi gweld safbwyntiau cyfannol sy'n canolbwyntio ar unigolion o bobl a bod cynlluniau ar wahân a rhwystrau'n cael eu diddymu.

Datganiad o Weledigaeth 3

Cwestiwn 5

Datganiad o Weledigaeth 3 yw bod system gysylltiedig lle bydd pawb yn cael y lefel briodol o gymorth ble bynnag y maent yn ei geisio. Ydych chi'n cytuno bod yr adran hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cyflawni hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 5a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 5?

Rydym yn cytuno â'r Datganiad o Weledigaeth yma ond rydym yn credu y dylai alinio'n agosach gyda Datganiad o Weledigaeth 4 hefyd, gan ein bod yn credu y dylai gwasanaeth iechyd meddwl di-dor ffurfio un elfen o system gysylltiedig fwy.



Wrth adolygu'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y system gysylltiedig roeddem o'r farn efallai bod rhai ar goll neu angen eu hehangu:

- Llyfrgelloedd a Chanolfannau Clyd, efallai eu bod wedi'u cynnwys o fewn diwylliant ond rydym o'r farn y dylid ystyried eu nodi'n benodol.
- Lloches ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig.
- Troseddwyr a Throseddwyr Rhyw o fewn yr ystâd ddiogel ac yn y gymuned.
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithasau Tai), er eu bod efallai yn rhan o'r elfen dai neu'r sector gwirfoddol, gall eu rôl fod yn fwy arbenigol.

Cwestiwn 5b

Rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu lefel uchel ar gyfer Datganiad o Weledigaeth 3 yn y strategaeth. Ydych chi'n cytuno â nhw?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 5c

Oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r camau gweithredu hyn?

Mae'n ymddangos bod yr holl gamau gweithredu lefel uchel yn briodol, ond ein pryder ni yw bod pob un yn ymwneud â gwahanol ran o'r system yn hytrach na'u dwyn ynghyd fel bod pob un yn deall beth mae'r lleill yn ei wneud.

Rydym yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys cam gweithredu lefel uchel o ran cyfathrebu agored a rhannu gwybodaeth, yn aml mae pobl yn gorfod ailadrodd profiadau / trawma ac ati wrth iddynt symud i wasanaethau eraill sy'n andwyol ar gyfer eu hiechyd meddwl. Hefyd, gyda gwell dealltwriaeth dylai bod llai o atgyfeiriadau a chyfeiriadau amhriodol.

Efallai y bydd cyfle hefyd i ymgorffori elfennau eraill o ran penderfynyddion iechyd ehangach y gallir eu cynnwys yn yr ymagwedd system gysylltiedig ehangach.



Datganiad o Weledigaeth 4

Cwestiwn 6

Datganiad o Weledigaeth 4 yw bod pobl yn cael gwasanaethau iechyd meddwl sy'n ddi-dor – yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf yn ddi-oed. Ydych chi'n cytuno bod yr adran hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cyflawni hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 6a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 6?

Rydym yn cytuno gydag egwyddor Datganiad o Weledigaeth 4, ond rydym yn pryderu a fydd yn hyn arwain at fwy o alw a capasiti ar gyfer y gwasanaethau iechyd gan leihau'r adnoddau ar gyfer yr elfennau ataliol a gwasanaethau cymunedol. Rydym yn gwybod bod cymhlethdodau gyda'r anghenion ar gyfer camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac iechyd meddwl er mwyn i bobl allu pontio rhyngddynt, ond mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar un o'r rhain yn unig - iechyd meddwl.

Mae rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn her, felly mae cyfeirio unigolyn at y gefnogaeth gywir y tro cyntaf heb oedi, pan fo gan y gwasanaeth restr aros a dim capasiti, yn golygu bod yn rhaid i'r gymuned a'r gwasanaethau lleol reoli a chefnogi'r claf er y nodwyd y llwybr cywir a'r gefnogaeth gywir. Nid yw'n ymddangos bod y Datganiad o Weledigaeth yn cyflwyno datrysiadau ar gyfer y mater hwn.

Eto, er ein bod yn cytuno ag egwyddor y Datganiad o Weledigaeth rydym yn cydnabod y bydd y cyfnodau pontio yn parhau i fod yn her. Gweithwyr achos yn trosglwyddo'r gefnogaeth i wasanaethau oedolion pan fo cleient yn troi'n 18 neu pan ddaw eu cefnogaeth i ben. Mae perygl y bydd iechyd meddwl y rhai sy'n gadael y carchar neu'r rhai gyda dedfryd fer yn dad-sefydlogi ac na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu; gyda dedfryd fer efallai na fydd modd darparu meddyginiaeth neu gyfuno gyda gwasanaethau presennol ac ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ystâd ddiogel efallai na fydd sefydlogrwydd meddyginiaeth a chefnogaeth reolaidd ar gael pan fyddant yn ôl yn y gymuned, mae'r sefyllfaoedd hyn yn hysbys fel adegau pan fo anghenion iechyd meddwl yn fwy dwys ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y camau gweithredu ar hyn o bryd.



Cwestiwn 6b

Rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu lefel uchel ar gyfer Datganiad o Weledigaeth 4 yn y strategaeth. Ydych chi'n cytuno â nhw?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Cwestiwn 6c

Oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r camau gweithredu hyn?

Er ein bod yn cytuno â'r camau gweithredu lefel uchel sy'n canolbwyntio'n bennaf ar iechyd byddem yn awgrymu efallai y dylid ystyried camau gweithredu ychwanegol:

- Darpariaeth iechyd meddwl mewn carchardai, canolfannau cadw ceiswyr lloches a ffoaduriaid, a llety diogel eraill sy'n aml ar wahân i'r llwybrau mewn lleoliadau iechyd sylfaenol ac eilaidd.
- Cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n byw gydag unigolion gyda phroblemau Iechyd Meddwl (gan gynnwys gofalwyr ifanc). Mae angen cefnogaeth i wybod beth yw'r ffordd orau o gynorthwyo'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt, i reoli eu cyflwr; ond hefyd iddyn nhw'n uniongyrchol, i gynorthwyo i lywio'r trawma a chanlyniadau cefnogi'r unigolyn hwnnw.
- Gall mynediad at feddyginiaeth, bylchau mewn triniaeth ddad-sefydlogi pobl ac ychwanegu straen a gorbryder gan arwain at anghenion iechyd meddwl dwys.

Cwestiwn 7

Rydym wedi nodi rhai meysydd lle mae angen gweithredu i gefnogi'r system iechyd meddwl yn ei chyfanrwydd. Dyma'r meysydd dan sylw:

- technoleg a digidol
- cipio data a mesur canlyniadau
- cefnogi'r gweithlu iechyd meddwl
- seilwaith ffisegol (gan gynnwys y safle ffisegol lle mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu)
- gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi
- cyfathrebu

Ydych chi'n cytuno mai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf



Cwestiwn 7a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 7?

Rydym yn cytuno bod y rhain oll yn bwysig, ond rydym yn credu y dylid cynnwys cyfathrebu o dan un o'r Datganiadau o Weledigaeth fel y nodwyd yn yr ateb i gwestiwn 5c. Hefyd, rydym yn credu y dylai cyfathrebu i herio stigma a chanolbwyntio ar iechyd meddwl cadarnhaol gynnwys pob math o gyfryngau gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol fel y ceir yn Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Yn ein barn ni, ni ellir herio na newid safbwyntiau, diwylliant a stigma heb gyfathrebu clir ac effeithiol.

Efallai y bydd cyfle hefyd i gynnwys elfen o ran hunan-ofal a rhannu negeseuon o ran beth yn union yw hunan-ofal da, a allai atal cyflwr iechyd meddwl rhag gwaethygu.

Y Strategaeth Gyffredinol

Cwestiwn 8

Bydd y camau gweithredu lefel uchel yn berthnasol drwy gydol oes y strategaeth. Byddant yn cael eu cefnogi gan gynlluniau cyflawni sy'n cynnwys camau gweithredu manwl. Bydd y cynlluniau cyflawni hyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Oes unrhyw gamau gweithredu manwl yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau cyflawni cychwynnol?

Gweler ein hymatebion i'r cwestiynau penodol yn yr ymateb hwn.

Er ein bod yn cytuno gyda'r Datganiadau o Weledigaeth rydym yn pryderu o ran sut y byddant yn cael eu cyflawni a heb y cynllun cyflawni manwl a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth derfynol rydym yn pryderu na fydd llawer neu na fydd dim adnoddau neu gyllid ychwanegol i gefnogi darpariaeth tra bo'r galw a chymhlethdod yn cynyddu ar gyfer systemau, sefydliadau a gweithlu sydd eisoes wedi cyrraedd eu capasiti.

Cwestiwn 9

Mae hon yn strategaeth ar gyfer pob oedran. Pryd bynnag y byddwn yn cyfeirio at ein poblogaeth, rydym yn cynnwys babanod, plant, pobl ifanc, oedolion ac oedolion hŷn yn ein cynlluniau. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y strategaeth yn glir o ran sut mae'n cyflawni ar gyfer pob grŵp oedran?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf



Cwestiwn 9a

Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 9?

Ychydig o wybodaeth sydd o ran pobl hŷn, y byddem yn disgwyl ei weld o ran dementia a chanolbwyntio ar heneiddio'n dda.

Mae pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion wedi bod yn broblem ers sawl blwyddyn ac nid yw'n ymddangos bod datrysiadau ar gyfer y materion hyn yn y strategaeth ddrafft.

Er bod y strategaeth yn ystyried lechyd Meddwl yn y Carchar, rydym o'r farn bod angen atgyfnerthu'r cyfnod pontio rhwng yr ystâd ddiogel i ddarpariaeth gwasanaeth a mynd o'r gymuned i'r ystâd ddiogel.

Cwestiwn 10

Rydym wedi paratoi asesiadau effaith i esbonio sut gallai ein strategaeth effeithio ar Gymru a'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Rydym wedi ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol. Oes unrhyw beth ar goll o'r asesiadau effaith y credwch y dylem ei gynnwys?

Dim Sylw

Cwestiwn 11

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r strategaeth eu cael ar yr iaith Gymraeg. Sut gallem newid y strategaeth i roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Sut gallem newid y strategaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg?

Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn un o'r Datganiadau o Weledigaeth a champau gweithredu lefel uchel ac felly credwn fod yr elfen hon o gydraddoldeb yn cael ei chwmpasu.

Cwestiwn 12

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod.

Gall stigma fod yn uwch mewn rhai cymunedau a grwpiau cymunedol nag eraill, sy'n debygol o fynnu ymatebion sy'n briodol i ddiwylliannau nad ydynt yn gyfyngedig i iaith a dewis o eiriau.

Mae'r ymateb hwn ar ran ein holl aelodau, sy'n cynnwys 22 Cyngor, 4 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, 4 Heddlu, 3 Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Trydydd Sector, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.